Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Ymgynghoriad ar ein ffioedd a'n taliadau rheoleiddio ar gyfer 2025/26

# Cynnwys


Yr hyn rydym yn ymgynghori arno ....2
Ynglŷn â Cyfoeth Naturiol Cymru ....3
Ein rôl ym maes rheoleiddio ....3
Ariannu ein dull rheoleiddio ....3
Adolygiad blynyddol o daliadau ar gyfer 2025/26 ....5
Ein ffioedd a'n taliadau rheoleiddio arfaethedig ar gyfer 2025/26 ....6
Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU ....6
Rheolau Safonol ar gyfer Gwastraff Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ....9
Gwastraff y Rhestr Werdd- Erthygl 18 o'r Rheoliad Cludo Llwythi Gwastraff a ddargedwir ....9
Hysbysiad Safleoedd Gwastraff Peryglus ....11
Cydsyniadau a.166 Deddf y Diwydiant Dŵr – Adnewyddiadau rhyddhau falfiau sgwrio bob pum mlynedd ....12
Adnoddau Dŵr – Adnewyddu o dan yr un telerau / telerau gwahanol ....12
Trwyddedu Rhywogaethau ....13
Gweithgareddau eraill y mae angen Trwydded ar eu cyfer ....14
Trwyddedau Rheoli Adar ....14
Gwaith iechyd a diogelwch a gynllunnir ....14
Hepgor taliadau am drwyddedau rhywogaethau ....14
Rheoli rhagolygon o ddiffygion ....16
Materion eraill i'w nodi ....17
Ymateb i'r ymgynghoriad hwn ....20
Sut i ymateb ....20
Diogelu data ....20
Y camau nesaf ....21


# Yr hyn rydym yn ymgynghori arno

Hoffem gael eich barn ar ein cynigion codi tâl ar gyfer ein ffioedd a'n taliadau rheoleiddio o 1 Ebrill 2025. Byddwn yn defnyddio eich adborth i lywio ein cynlluniau codi tâl newydd, yr

ydym yn cynnig eu rhoi ar waith o 1 Ebrill 2025 os cânt eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

**Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cau am 23:59 ddydd Sul 12 Ionawr 2025.**

# Ynglŷn â Cyfoeth Naturiol Cymru

Ein diben yw ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae hyn yn golygu gofalu am aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phriddoedd er mwyn gwella llesiant Cymru a rhoi dyfodol gwell i bawb.

Credwn fod angen inni ddefnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd ac ar raddfa sy'n cynnal ac yn gwella cydnerthedd ecosystemau a'r buddiannau a gynigir ganddynt, gan ddiwallu anghenion cenedlaethau presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

# Ein rôl ym maes rheoleiddio

Mae pawb am i'n hamgylchedd gael ei reoli a'i gynnal yn dda, er budd cenedlaethau nawr ac yn y dyfodol. Yn fwy nag erioed, mae angen gwarchod ein hamgylchedd, lleihau effeithiau newid hinsawdd ac atal dirywiad cynefinoedd a bywyd gwyllt. Mae polisïau CNC yn adlewyrchu hyn.

Mae gennym gylch gwaith eang sy'n cynnwys darparu ystod o wasanaethau rheoleiddio. Mae'r gwasanaethau rheoleiddio hyn yn gosod sylfaen sy'n atal niwed amgylcheddol ac yn cynnig chwarae teg i atal busnesau a gaiff eu rheoli'n dda rhag colli allan i weithredwyr gwael yn yr un sector. Rydym yn asesu ac yn rhoi trwyddedau, yn gosod amodau i warchod yr amgylchedd, ac yn monitro sut y caiff safonau deddfwriaethol eu bodloni, sy'n allweddol er mwyn sicrhau amgylchedd o ansawdd uchel.

Rydym yn pennu risgiau i'r amgylchedd ar sail y dystiolaeth sydd ar gael. Mae ein penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth ac maent yn ategu ein hymateb i'r argyfyngau natur a hinsawdd sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd.

Wrth reoleiddio, rydym yn canolbwyntio ar y meysydd lle ceir y risg amgylcheddol fwyaf, a chaiff hy ei benderfynu ar sail y gweithgaredd sy'n cael ei gynnal a'i leoliad arfaethedig. Rydym yn helpu i sicrhau bod y rhai rydym yn eu rheoleiddio yn cydymffurfio ag amodau eu caniatadau a'u trwyddedau. Os caiff yr amodau hyn eu torri, mae ystod o gamau y gallwn eu cymryd, gan gynnwys camau erlyn.

# Ariannu ein dull rheoleiddio

Caiff ein cyfrifoldebau rheoleiddio eu hariannu drwy grantiau gan Lywodraeth Cymru (Cymorth Grant) neu, lle bo gennym bwerau cyfreithiol i godi tâl, drwy daliadau a godir ar y sawl rydym yn eu rheoleiddio.

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol, o dan Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru[1], inni adennill yr holl gostau sy'n gysylltiedig â darparu ein gwasanaethau rheoleiddio gan y rhai rydym yn eu rheoleiddio, lle bo hynny’n bosibl, fel na chaiff y gwasanaethau hynny eu hariannu drwy drethi cyffredinol. Mae angen inni hefyd sicrhau bod incwm o'n ffioedd a'r

[1] Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru | LLYW.CYMRU

taliadau a godir gennym ym mhob maes yn cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl i ddarparu'r gwasanaeth rheoleiddio penodol hwnnw.

Mae lefel yr adnoddau a'r ymdrech reoleiddio rydym yn eu neilltuo i weithgaredd yn dibynnu ar ffactorau a throthwyon a bennir mewn deddfwriaeth ac yn ein polisïau. Mae hyn yn golygu bod ystod o fecanweithiau rheoli gwahanol ar gael yn dibynnu ar risg y gweithgaredd. Mae'r rhain yn cynnwys gwaharddiadau, eithriadau, trwyddedu, caniatáu a chydsynio. Mae'r hierarchaeth risg hon a'r camau rydym yn eu cymryd o ganlyniad yn wahanol ar gyfer pob cyfundrefn. Os bydd risg amgylcheddol uchel yn gysylltiedig â gweithgaredd, bydd angen inni fuddsoddi mwy o amser ac adnoddau yn y maes hwnnw. Caiff y cynnydd hwnnw o ran amser ac adnoddau ei adlewyrchu wedyn yng nghost darparu'r gwasanaeth hwnnw – po fwyaf yr ymdrech sydd ei hangen gan CNC, yr uchaf fydd y gost.

Wrth bennu'r taliadau a godir gennym, rydym yn ystyried y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu ac yn adolygu ein ffyrdd o weithio er mwyn sicrhau bod prosesau mor effeithlon â phosibl.

Mae'r taliadau a godir gennym am weithgareddau trwyddedu a chynhaliaeth (sef cydymffurfio blynyddol) yn cyd-fynd ag egwyddor ‘y llygrydd sy'n talu’, hynny yw bod ymgeiswyr yn gyfrifol am dalu'r gost y mae CNC yn mynd iddi wrth benderfynu ar gais am drwydded ac asesu ei gydymffurfiaeth â'r amodau gwarchod. Mae hyn yn cyd-fynd ag Adran 3 o'r Cod Rheoleiddwyr[2] a'n Hegwyddorion Rheoleiddio[3].

Caiff unrhyw waith gorfodi a wnawn ei ariannu drwy arian ‘Cymorth Grant’ a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Caiff unrhyw ddirwyon a gyflwynir gan y Llysoedd o ganlyniad i erlyniad sydd wedi cael ei ddwyn gerbron gan CNC eu talu i Drysorlys ei Fawrhydi, yn hytrach na CNC.

Mae'r ffioedd a'r taliadau a godir i dalu costau ein gweithgareddau rheoleiddio yn cyfrif am oddeutu 17% o gyfanswm ein cyllid ar gyfer 2024/25. Mae ein cynlluniau codi tâl presennol ar gael ar ein gwefan[4].

Mae'r set hon o gynigion codi tâl ar gyfer 2025/26 yn adolygu nifer bach o daliadau penodol ac yn ymdrin â phwysau chwyddiannol neu ragolygon o ddiffygion er mwyn sicrhau ein bod yn rheoli ein harian mewn ffordd gynaliadwy.

Rydym yn adolygu'r taliadau a godir gennym am drwyddedu bob blwyddyn er mwyn sicrhau eu bod yn gywir ac rydym wedi dechrau cynnal adolygiad ehangach o’r hyn a elwir yn daliadau cynhaliaeth neu’n daliadau parhau (ee. tâl cydymffurfiaeth blynyddol) er mwyn sicrhau ein bod yn ariannu'r gwasanaeth rydym yn ei ddarparu yn ddigonol. Drwy wneud hyn, cawn ein hariannu mewn ffordd gynaliadwy i gyflawni ein dyletswyddau rheoleiddio ac rydym yn gweithredu mewn ffordd sy'n gydnaws â pholisi Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

[2] Cod Rheoleiddwyr (publishing.service.gov.uk)
[3] Cyfoeth Naturiol Cymru / Ein Hegwyddorion Rheoleiddio
[4] Cyfoeth Naturiol Cymru / Ein taliadau

# Adolygiad blynyddol o daliadau ar gyfer 2025/26

Rydym wedi adolygu'r taliadau a godir gennym. Mae'r adolygiad hwn wedi cael ei lywio gan ein hegwyddorion codi tâl:

- Mae taliadau yn seiliedig ar adennill yn llawn y gost o ddarparu ein gwasanaethau (ar gyfer ceisiadau am drwyddedau a gwasanaethau parhaus megis asesiadau blynyddol o gydymffurfiaeth).
- Rydym wedi bod yn dryloyw o ran sut rydym wedi gwneud ein penderfyniadau ynghylch codi tâl.
- Nid yw'r taliadau a godir gennym yn sybsideiddio cyfundrefnau eraill – mae'r taliadau a godir gennym yn talu am y gwasanaethau a ddarperir o fewn y gyfundrefn honno.
- Cefnogi gorwelion cynllunio tymor hwy lle bo hynny'n bosibl
- Rydym yn ceisio osgoi gostwng taliadau ac yna eu cynyddu eto, a hynny drwy reoli ein gwargedion a'n diffygion ariannol mewn ffordd weithredol.
- Rydym wedi cadw'r taliadau a godir gennym mor isel â phosibl drwy ymdrech barhaus i gynyddu effeithlonrwydd.
- Nid ydym yn gwneud elw o bobl sy'n talu ffioedd, ac
- Ein nod yw bod yn annibynnol ar gymorthdaliadau trethdalwyr.

Ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2025 ymlaen, rydym yn cynnig cadw'r taliadau rheoleiddio a godir gennym ar hyn fel y maent - i'r graddau bod hynny'n bosibl. Fodd bynnag, mae angen inni addasu rhai ohonynt er mwyn sicrhau ein bod yn rheoli pwysau chwyddiannol parhaus ac yn rheoli diffygion ar gyfer cyfundrefnau penodol - yn ogystal â chyflwyno meysydd newydd lle codir tâl o ganlyniad i ysgogiadau deddfwriaethol a thechnegol.

Mae adolygiad manylach wedi canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- **Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU** – adolygiad o'r taliadau a godir gennym ar hyn o bryd am drwyddedu a'r taliadau cynhaliaeth (sef taliadau cydymffurfiaeth blynyddol) a meysydd newydd lle cynigir codi tâl.
- **Rheolau Safonol ar gyfer Gwastraff Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr (EPR)** – cyflwyno rheolaethau llymach drwy dair Trwydded Rheolau Safonol newydd gyda chynigion cysylltiedig mewn perthynas â thrwyddedu a chynhaliaeth (cydymffufiaeth flynyddol), diwygiadau i Drwyddedau Rheolau Safonol presennol, a dileu esemptiadau gwastraff.
- **Gwastraff y Rhestr Werdd** – Dyletswyddau rheoleiddio newydd i CNC o ran cludo llwythi o Wastraff y Rhestr Werdd y gall CNC gynnig taliadau newydd ar eu cyfer er mwyn adennill costau.
- **Tâl am Hysbysiadau Safleoedd Gwastraff Peryglus** – cynnig i leihau'r tâl a godir i sero er mwyn rheoli'r gwarged presennol.

- **Deddf y Diwydiant Dŵr a166 a/b Adnewyddiadau rhyddhau falfiau sgwrio bob pum mlynedd** – cyflwyno taliadau am adnewyddiadau bob pum mlynedd (gan gynnwys asesiadau rheoliadau cynefinoedd). Dim ond cwmnïau dŵr y mae'r cynigion hyn yn effeithio arnynt.
- **Adnoddau Dŵr** – Mae angen i **adnewyddiadau o dan yr un teleraau/telerau gwahanol** gael eu diffinio'n gliriach fel bod costau rhai adnewyddiadau o dan yr un telerau yn cael eu hadennill yn llawn.
- **Trwyddedu Rhywogaethau** – cynigion ar gyfer taliadau newydd a chymhwyso hepgoriadau gan ddefnyddio Cymorth Grant i sybsideiddio rhai ceisiadau.
- **Cynnydd Cyffredinol** i fynd i'r afael â phwysau costau parhaus a rheoli diffygion cyfundrefnau.

# Ein ffioedd a'n taliadau rheoleiddio arfaethedig ar gyfer 2025/26

Rydym yn cynnig cynyddu'r swm o arian rydym yn ei gasglu drwy ein cynlluniau codi tâl er mwyn adennill costau yn llawn, fel y gallwn gyflawni ein gwaith rheoleiddio a'r canlyniadau sydd eu hangen ar gyfer amgylchedd Cymru a'r adferiad gwyrdd.

Ni fyddai'n briodol ceisio Cymorth Grant ychwanegol ar gyfer gweithgareddau rheoleiddio y dylai ffioedd dalu amdanynt, ac ni allwn sybsideiddio cyfundrefnau gyda ffrydiau incwm eraill. Wrth gynnig ffioedd a thaliadau newydd, rydym yn dilyn y gofynion a nodir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru yn ogystal â rheolau Trysorlys ei Fawrhydi a'n rhwymedigaethau deddfwriaethol, gan sicrhau mai dim ond costau cymwys a gaiff eu cynnwys mewn cyfrifiadau.

Rydym yn cydnabod yr effaith ariannol y gallai ein cynigion codi tâl ei chael ar rai sectorau busnes, yn enwedig gan fod ein cynigion yn cyd-fynd â phwysau ariannol ehangach oherwydd chwyddiant a chostau byw uwch. Fodd bynnag, os na fyddwn yn rheoli ein cynlluniau codi tâl i sicrhau eu bod yn adennill costau yn llawn, byddai hyn yn cael effaith sylweddol ar adnoddau, yn lleihau ein sylfaen sgiliau technegol ac, felly, yn arwain at anallu i sicrhau bod ein hadnoddau naturiol yn cael eu cynnal, eu gwella, a'u defnyddio mewn ffordd gynaliadwy - nawr ac yn y dyfodol.

# Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU

Disgwylir y bydd Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (UK ETS) CNC yn wynebu diffyg o -£0.4m erbyn diwedd 2024/25.

Mae angen inni ddiwygio'r taliadau a godir gennym i adennill y diffyg hwn a sicrhau bod ein taliadau yn y dyfodol yn adlewyrchu cost a chymhlethdod y gwaith a wneir gan CNC.

Mae'r tabl canlynol yn dangos ein cynigion ar gyfer 2025/26.Mae hyn yn cynnwys cynigion tâl newydd ar gyfer is-osodiadau ychwanegol ar safle a gyflwynwyd gan Adrodd ar Lefel

Gweithgaredd sy'n ychwanegu cymhlethdod ac mae angen ymdrech ychwanegol i adolygu a phenderfynu mewn perthynas â hyn.

| **Cynigion Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU 2025/26** | | | **Taliadau Presennol** | **Tâl Arfaethedig 2025/26** |
|---|---|---|---|---|
| **Cynhaliaeth / Parhau**[5] | | | | |
| Taliadau cynhaliaeth/parhau o dan Gynllun Masnachu Allyriadau y DU ar gyfer gosodiadau yng Nghymru | | | | |
| **Gosodiad** | **Categori gosodiad (yn ôl eich trwydded)** | **Nifer yr Is-osodiadau** | | |
| Gosodiadau HSE | Ysbyty neu allyrrydd bach | Ddim yn berthnasol | **£539** | £2,306 |
| Gosodiadau (Dyraniad rhydd) | Cat A - Allyrru llai na 50,000t $CO_2e$ y flwyddyn | Ddim yn berthnasol | **£2,154** | £2,797 |
| Gosodiadau (Dim dyraniad rhydd) | Cat B - Allyrru o leiaf 50,000t a dim mwy na 500,000t $CO_2e$ y flwyddyn | Ddim yn berthnasol | **£3,770** | £3,192 |
| Gosodiadau (Dim dyraniad rhydd) | Cat C - Allyrru mwy na 500,000t $CO_2e$ y flwyddyn | Ddim yn berthnasol | **£4,307** | £3,586 |
| Gosodiadau (Dyraniad rhydd) | Pob categori | 1 i 2 | **Fel y taliadau uchod, yn dibynnu ar y categori** | £7,486 |
| Gosodiadau (Dyraniad rhydd) | Pob categori | 3+ | **Fel y taliadau uchod, yn dibynnu ar y categori** | £15,867 |
| **Trwyddedu Newydd** | | | | |
| Taliadau trwydded newydd ETS y DU ar gyfer gosodiadau yng Nghymru: | | | | |
| **Gosodiad** | **Categori'r gosodiad** | **Nifer yr Is-osodiadau** | **Taliadau Presennol** | **Taliadau arfaethedig 25/26** |
| Gosodiadau HSE | Ysbyty neu allyrrydd bach | Ddim yn berthnasol | **£2,032** | £5,698 |
| Gosodiadau (Dim dyraniad rhydd) | Cat A - Allyrru llai na 50,000t $CO_2e$ y flwyddyn | Ddim yn berthnasol | **£2,032** | £5,698 |
| Gosodiadau (Dim dyraniad rhydd) | Cat B - Allyrru o leiaf 50,000t a dim mwy na 500,000t $CO_2e$ y flwyddyn | Ddim yn berthnasol | **£3,048** | £7,597 |
| Gosodiadau (Dim dyraniad rhydd) | Cat C - Allyrru mwy na 500,000t $CO_2e$ y flwyddyn | Ddim yn berthnasol | **£4,064** | £9,496 |
| Gosodiadau (Dyraniad rhydd) | Pob categori | 1 i 2 | **Fel y taliadau uchod, yn dibynnu ar y categori** | £13,294 |
| Gosodiadau (Dyraniad rhydd) | Pob categori | 3+ | **Fel y taliadau uchod, yn dibynnu ar y categori** | £15,193 |
| **Amrywio Trwyddedau**[6] | | | | |
| **Gosodiad** | **Math o newid i'r drwydded** | | **Taliadau Presennol** | **Taliadau arfaethedig 25/26** |
| Pob un | Amrywiad gweinyddol[7] | | **£0** | £375 |
| Pob un | Mân amrywiad[8] | | **£0** | £1,140 |

[5] Ffioedd cynhaliaeth blynyddol yn seiliedig ar gategori fel a ddiffinnir yn y drwydded.

[6] Yr un ffioedd yn gymwys pan mai'r rheoleiddiwr sy'n ysgogi'r amrywiad (heb gais gan y gweithredwr)

[7] Cynigiwn gyflwyno gweithgaredd y codir tâl amdano am bob mân amrywiad gweinyddol. Nid oes angen mewnbwn technegol ar gyfer y rhain – ee. Newid cyfeiriad cofrestredig cwmni.

[8] Amrywiad trwydded nad yw'n weinyddol yn unig, ond nad yw ychwaith yn bodloni'r diffiniad deddfwriaethol o addasiad sylweddol.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gosodiadau (Dim dyraniad rhydd) | Amrywiad sylweddol[9] | | **£1,016** | £4,558 |
| Gosodiadau (Dyraniad rhydd) | Amrywiad sylweddol[10] | | **£1,016** | £6,457 |
| Pob un | Cynyddu targed allyriadau (cynyddu capasiti HSE) | | **£2,032** | £5,698 |
| Pob un | Cronfa newydd-ddyfodiaid | | **£3,048** | £7,597 |
| **Trosglwyddo/Ildio/Dirymu Trwyddedau** | | | | |
| **Gosodiad** | **Math o newid i'r drwydded** | | **Taliadau Presennol** | **Taliadau arfaethedig 25/26** |
| Pob un | Trosglwyddo trwydded | | **£2,032** | £5,698 |
| Pob un | Ildio trwydded | | **£2,032** | £5,698 |
| Pob un | Dirymu trwydded | | **£2,032** | £5,698 |

Yn ogystal â'r cynigion uchod, rydym yn cynnig taliadau newydd ar gyfer:

1. **Gweinyddu Hysbysiadau Cosb Sifil – ffi sefydlog o £375**

   O dan Erthygl 35 o Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020 (OS 2020/1265), mae gan CNC y pŵer i adennill costau sy'n ymwneud â hysbysiadau cosb sifil a chostau gorfodi eraill.

   Nod ein cynnig yw adennill yn uniongyrchol y gost weinyddol untro o gyflwyno'r hysbysiad i'r gweithredwr.

2. **Taliadau cyn gwneud cais – £125 yr awr**

   Mae'r gwasanaeth dewisol hwn yn dibynnu ar y capasiti sydd ar gael ac mae'r cynnig yn gyson â chyfundrefnau rheoleiddio eraill a chodir y gyfradd reoleiddio safonol fesul awr. [11]

3. **Casglu data sylfaenol Allyrwyr Bach Iawn – £125 yr awr**

   Ar gyfer allyriadau <2,500t CO2e y flwyddyn nad oes angen trwydded arnynt ond y mae angen eu monitro o hyd. Codir y gyfradd reoleiddio safonol fesul awr ar gyfer hyn hefyd.

4. **Bydd y tâl am ychwanegu gweithgaredd newydd at drwydded yr un fath â'r tâl a godir am gais newydd**

   Er enghraifft, ychwanegu gweithgaredd dal carbon. Codir tâl am hyn ar y ffi ymgeisio newydd sy'n gysylltiedig â chategori'r gweithgaredd newydd yn unig, ac nid y gosodiad cyfan.

5. **Codir ffi gwneud cais safonol am geisiadau cyntaf o'u math, ynghyd â chyfradd fesul awr atodol (lle bo hynny'n berthnasol)**

   Rydym yn cynnig codi ffi gwneud cais safonol am unrhyw gais cyntaf o'i fath (e.e., dal carbon a chludiant) yn ogystal â chyfradd fesul awr atodol (lle bo hynny'n berthnasol).

[9] Addasiad sylweddol i gynllun monitro neu gynllun methodoleg monitro.
[10] Addasiad sylweddol i gynllun monitro neu gynllun methodoleg monitro.
[11] Er cymhariaeth, rydym eisoes yn codi £125/awr am benderfynu ar allyriadau adroddadwy.

# Rheolau Safonol ar gyfer Gwastraff Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr (EPR)

Rydym wedi creu tair Trwydded Rheolau Safonol newydd ar gyfer gwastraff mewn perthynas â theiars, matresi a gwastraff ailgylchadwy.

O ganlyniad i ddiwygiadau i esemptiadau gwastraff sy'n cael eu gwneud gan y Llywodraeth er mwyn gwella cydymffurfiaeth ag esemptiadau a lleihau troseddau gwastraff, rydym yn disgwyl y bydd angen i fwy o weithgareddau gael eu rheoleiddio drwy drwyddedau amgylcheddol. Er enghraifft, ar ôl i esemptiad T8 gael ei dynnu'n ôl, bydd angen i bawb sy'n trin teiars gael trwydded yn y dyfodol.

Credwn y bydd y trwyddedau rheolau safonol newydd hyn yn helpu rhai gweithredwyr i newid o'r gyfundrefn esemptiadau i'r gyfundrefn drwyddedu. Maent wedi'u hanelu'n bennaf at weithredwyr safleoedd gwastraff sy'n gweithredu ar hyn o bryd o dan esemptiadau T8 (ailgylchu teiars), T12 (ailgylchu matresi) a T4 (bwndelu papur, cardbord a phlastig).

Y tair set o reolau safonol newydd yw:

- SR2024 Rhif 02 - Matresi gwastraff i'w hadfer i ddisodli esemptiad T12.
- SR2024 Rhif 03 - Teiars gwastraff i'w hadfer i ddisodli esemptiad T8.
- SR2024 Rhif 04 - Papur, cardbord a phlastig gwastraff i'w hadfer i ddisodli esemptiad T4.

Mae'r taliadau a gynigir ar gyfer y tair trwydded newydd hyn yn unol â thrwyddedau rheolau safonol presennol tebyg ond byddant yn ddarostyngedig i'r cynnydd chwyddiannol arfaethedig neu'r cynnydd i reoli'r risg o ddiffyg yn 2025/26, o ystyried diffyg cyffredinol y gyfundrefn Gwastraff EPR.

- Ffi sylfaenol ymgeisio o £1,893 + 3% = £1,950. Bydd ein ffioedd ychwanegol presennol yn gymwys os bydd angen inni adolygu unrhyw gynlluniau ac asesiadau fel rhan o'r cais.
- Trosglwyddo £1,858 + 3% = £1,914
- Mân amrywiad technegol £2,888 + 3% = £2,975
- Amrywiad gweinyddol £717 + 3% = £739
- Cynhaliaeth (monitro cydymffurfio blynyddol) £2,669 + 8.5% = £2,896

Gellir gweld y taliadau ar gyfer y trwyddedau rheolau safonol presennol yn ein cynllun codi tâl presennol (gweler tabl F10b ymlaen yn y cynllun codi tâl EPR ar dudalen 34).

# Gwastraff y Rhestr Werdd - Erthygl 18 o'r Rheoliad Cludo Llwythi Gwastraff a ddargedwir

I baratoi am ddyletswyddau rheoleiddio newydd CNC ar gyfer erthygl 18 o'r Rheoliad Cludo Llwythi Gwastraff a ddargedwir, a elwir hefyd yn rheolaethau ‘Gwastraff y Rhestr Werdd’, a phwerau i lunio cynllun codi tâl ar gyfer y gwaith newydd hwn, bydd y tâl rydym yn cynnig ei godi ar gyfer Gwastraff y Rhestr Werdd yn adennill cost ein gweithgareddau rheoleiddio yn y dyfodol ar gyfer y ffrwd wastraff hon.

Ar hyn o bryd, defnyddir system hunan-reoleiddio ar gyfer Gwastraff y Rhestr Werdd sy'n golygu nad yw'n ofynnol i allforwyr a mewnforwyr dalu ffioedd i dalu cost ein gweithgareddau cydymffurfiaeth reoleiddiol na chyflwyno ffurflenni Atodiad VII (gwastraff hysbysadwy yn unig). Nid oes gan CNC gynllun codi tâl ar waith ar gyfer GLW ar hyn o bryd.

Ffi flynyddol a delir ymlaen llaw yw'r tâl arfaethedig, sy'n debyg i'r modd y mae CNC yn codi tâl ar gyfer Llwythi Gwastraff Hysbysedig ar hyn o bryd. Caiff y ffi flynyddol ei chyfrifo ar gyfer cyfanswm y llwythi o Wastraff y Rhestr Werdd a gludir bob blwyddyn ariannol rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth. Yr opsiwn hwn yw'r ffordd symlaf i CNC godi tâl am Gludo Llwythi Gwastraff y Rhestr Werdd ac mae'n sicrhau cysondeb rhwng y ddau fath o reolaethau ar gyfer Cludo Llwythi Gwastraff.

Unwaith y bydd y gofynion rheoleiddio yn cael eu gweithredu drwy ddeddfwriaeth, cymerir y tâl trwy BACS - yr un dull â'r taliadau Cludo Gwastraff a Hysbyswyd ar hyn o bryd.

I roi syniad o'r costau arfaethedig, dangosir 2025/26 yn y tabl isod.

**Erthygl 18 Taliadau Mewnforio ac Allforio Llwythi'r Rhestr Werdd (2025/26)**

| Band | Nifer y llwythi a gludir fesul blwyddyn ariannol (1 Ebrill i 30 Mawrth) | Cyfradd |
|---|---|---|
| A | 1 i 5 llwyth | £250 |
| B | 6 i 20 llwyth | £1,000 |
| C | 21 i 100 llwyth | £4,500 |
| D | 101 i 300 llwyth | £6,500 |
| E | 301 i 500 llwyth | £9,500 |
| F | 501 i 1,000 llwyth | £11,500 |
| G | Mwy na 1,000 llwyth | £16,500 |

### Sut rydym yn diffinio un llwyth

Llwythi yw'r enw ar allforion a mewnforion gwastraff. Mae CNC yn gyfrifol am reoleiddio llwythi gwastraff a gaiff eu cludo i mewn ac allan o Gymru. Mae allforwyr a mewnforwyr gwastraff wedi dehongli'r diffiniad o 'un llwyth' mewn ffordd wahanol, sy'n golygu bod rhai ohonynt yn anfon symiau mawr o wastraff fel un llwyth ac eraill yn anfon symiau llai. Mae llwythi mwy yn galw am fwy o ymdrech reoleiddio. Rydym yn cynnig diffiniad newydd i sicrhau bod CNC yn gyson â diffiniad rheoleiddwyr eraill yn y DU o lwyth, er mwyn rhoi eglurder i fusnesau a sicrhau y byddwn yn adennill costau'r ffioedd a'r taliadau cywir.

At ddibenion codi tâl, rydym yn cynnig y dylid diffinio 'un llwyth' fel:

- un cynhwysydd cludo
- un trelar lori

- swmplwyth, lle caiff y gwastraff ei gludo mewn llong (ac nad yw'r gwastraff mewn cynwysyddion cludo nac ar drelars lori tra'i fod ar y llong nac ar unrhyw adeg yn ystod y broses gludo yn y Deyrnas Unedig)
- un llong (lle mae llong yw'r gwastraff)
- un gosodiad alltraeth, neu ran o osodiad alltraeth (lle mae gosodiad alltraeth neu ran o osodiad alltraeth yw'r gwastraff)
- gwastraff sy'n dechrau o'r un safle llwytho.

Ar gyfer Symudiadau Hysbysedig, rhaid i'r gwastraff ym mhob llwyth:

- feddu ar yr un nodweddion ffisegol a chemegol.
- ddechrau o'r un safle llwytho.
- symud i'r un gyrchfan.
- ddefnyddio'r un llwybr.

Mae angen ichi ddweud wrthym sawl llwyth rydych yn bwriadu eu cludo a dyddiadau cyntaf ac olaf arfaethedig y llwythi.

Bydd gennych hyd at 12 mis o'r dyddiad cydsynio i gwblhau cludo'r llwythi, neu hyd at dair blynedd os oes gan y cyfleuster yn y gyrchfan statws cydsyniad ymlaen llaw.

# Hysbysiad Safleoedd Gwastraff Peryglus

Yr Hysbysiad Safleoedd Gwastraff Peryglus yw'r gofyniad o dan Reoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 i unrhyw un sy'n cynhyrchu mwy na 500kg o wastraff peryglus mewn blwyddyn gofrestru ei fanylion â CNC.  Mae hyn yn rhoi manylion cynhyrchwyr yng Nghymru i swyddogion CNC sy'n ein galluogi i dargedu ein hymdrechion cydymffurfio yn effeithiol.

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi codi £18 fesul safle i gofrestru os caiff y taliad ei wneud ar-lein ar wefan CNC, £23 fesul safle am gofrestru dros y ffôn drwy dîm hyb cwsmeriaid CNC neu £28 fesul safle i gofrestru yn ysgrifenedig.

Rydym yn monitro'r refeniw yn erbyn y gost o ddarparu ein gwasanaethau yn rheolaidd. Rydym wedi nodi gwarged parhaus yn y maes hwn. Er mwyn rheoli hyn, rydym yn cynnig gostwng y ffi gofrestru i £0 o 1 Ebrill 2025 ymlaen. Bydd yn parhau'n ofynnol i gynhyrchwyr gofrestru gyda ni.

## Cydsyniadau a.166 Deddf y Diwydiant Dŵr – Adnewyddiadau rhyddhau falfiau sgwrio bob pum mlynedd

Ym mis Gorffennaf 2023 fel rhan o'n Hadolygiad Strategol o Daliadau, gwnaethom gyflwyno cydsyniadau y gellir codi tâl amdanynt o dan a166 a a b Deddf y Diwydiant Dŵr. Mae'r rhain yn cwmpasu gweithgareddau gan gwmnïau dŵr sy'n golygu bod yn rhaid gollwng dŵr wedi'i drin, neu ddŵr heb ei drin, i gwrs dŵr o bibell sy'n fwy na 229mm mewn diamedr. Ariannwyd y rhain drwy Gymorth Grant yn flaenorol.

Ar gyfer 2025/26, rydym yn cynnig y dylid cyflwyno tâl am adnewyddiadau rhyddhau falfiau sgwrio chwe-misol bob pum mlynedd sydd, unwaith eto, yn berthnasol i gwmnïau dŵr yn unig.

Y taliadau presennol yw:

- £796 am un achos o ollwng dŵr (a166a)
- £1,298 am sawl achos o ollwng dŵr o un safle yn unig (a166b).

Efallai y bydd angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hefyd. Y tâl presennol yw £649 i gwblhau un Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Efallai y bydd angen sawl asesiad os yw'r cynnig yn debygol o effeithio ar sawl safle gwarchodedig Ewropeaidd.

O safbwynt adnewyddu profion diogelwch ar falfiau sgwrio bob pum mlynedd o dan a166 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr, rydym yn cynnig:

- Tâl o £820 (£796 +3% o gynnydd chwyddiannol) am un achos o ollwng dŵr (a gynhelir ddwywaith y flwyddyn) o un safle'n unig ar un cydsyniad.
- Tâl o £1,337 (£1,298 +3% o gynnydd chwyddiannol) am sawl achos o ollwng dŵr o un safle ar yr un cydsyniad.

Codir tâl o 10% o'r gyfradd am un achos o ollwng dŵr (sef £82) am bob achos ychwanegol o ollwng dŵr ar safleoedd eraill a restrir ar yr un cydsyniad.

Lle bo angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, mae tâl presennol o £668 (£649 +3%) a chodir y tâl hwn fesul asesiad am bob safle gwarchodedig Ewropeaidd dan sylw.

## Adnoddau Dŵr – Adnewyddu o dan yr un telerau / telerau gwahanol

Rydym wedi mireinio'r modd rydym yn diffinio adnewyddiadau syml a chymhleth am nad ydym yn adennill digon o gostau ar adnewyddiadau o dan yr un telerau. Rydym yn cynnig y dylid cymhwyso'r ffi isaf am amrywiad syml (£1,398 ar hyn o bryd) i'r meysydd canlynol:

- adnewyddu o dan yr un telerau (lle nad oes unrhyw bryderon amgylcheddol na phryderon eraill wedi cael eu codi yn eich llythyr atgoffa i adnewyddu)
- adnewyddu o dan delerau gwahanol (lle mai lleihad yw'r newid, sy'n golygu lleihad mewn symiau neu ddileu pwynt/diben a symiau cysylltiedig).

Ar gyfer adnewyddiadau nad ydynt yn bodloni'r meini prawf uchod, rydym yn cynnig y dylid codi tâl am y rhain ar yr un gyfradd ag amrywiad technegol (£4,955 ar hyn o bryd) a byddant yn cynnwys:

- cynyddu'r symiau rydych yn eu tynnu
- newid lleoliad y gwaith tynnu
- newid diben
- newidiadau i luniadau a mapiau sydd wedi'u hatodi i'r ddogfen drwydded.

Am mai dyma'r taliadau presennol, bydd y cynigion hyn hefyd yn ddarostyngedig i gynnydd chwyddiannol ar gyfer 2025-26, o ystyried y diffyg a ragwelir ar hyn o bryd yn y gyfundrefn Adnoddau Dŵr.

Felly, y cynnig amrywio syml fydd £1,398 + 3% = £1,440, a'r cynnig amrywiad technegol fydd £4,955 + 3% = £5,104.

# Trwyddedu Rhywogaethau

Gwnaethom gyflwyno taliadau newydd drwy ein Hadolygiad Strategol o Daliadau yn 2023 a gwnaethom ymrwymo i hepgor taliadau mewn achosion penodol er mwyn cefnogi buddiannau ehangach. Ers i'r taliadau gael eu cyflwyno rydym wedi nodi cymhlethdod mewn perthynas â mathau penodol o drwyddedau a'r angen am fwy o eglurder ynghylch hepgoriadau a ble y maent yn gymwys. Rydym yn cynnig taliadau newydd ac yn cynnig y dylid mireinio'r hepgoriadau cysylltiedig ar gyfer 2025/26 sy'n golygu y codir tâl am y gweithgareddau canlynol. Bydd hepgoriadau ond yn gymwys mewn achosion sy'n bodloni prif amcan yr hepgoriad yn ein barn ni.

Bydd y ffioedd sefydlog sydd eisoes ar waith hefyd yn ddarostyngedig i gynnydd chwyddiannol (+3%) ar gyfer 2025/26, fel y dangosir yn yr adran nesaf.

## Datblygiadau deiliaid tai

Rydym yn cynnig tâl sefydlog newydd o £351 ar gyfer ceisiadau am drwydded rhywogaethau sy'n gysylltiedig ag estyniadau cartref, addasiadau to, ail-doi a datblygiad a ganiateir o fewn cwrtil annedd.

Codir tâl am newidiadau ar gyfradd sefydlog o £76 +3% = £78, tra bydd gwelliannau mwy cymhleth yn codi'r gyfradd fesul awr o £125 yr awr.

O dan Hepgoriad D ar hyn o bryd, roedd rhai datblygiadau tai yn cael cymhorthdal drwy gymorth grant. Rydym yn cynnig y dylid diwygio Hepgoriad D sy'n golygu y byddwn yn codi tâl am drwyddedau sy'n cynnwys addasiadau strwythurol neu darfu sylweddol - fel ail-doi - ond ni fyddwn yn codi tâl am sefyllfaoedd symlach fel gwaith cynnal a chadw cyffredinol ar annedd domestig.

## Gweithgareddau eraill y mae angen Trwydded ar eu cyfer

Rydym yn cynnig y dylid codi tâl o £125 yr awr am geisiadau cymhleth lle nad oes angen caniatâd cynllunio neu lle mae'r gweithgaredd wedi'i gwmpasu gan ddatblygiad a ganiateir fel clirio tir, ymchwiliadau tir, gosod seilwaith trydan neu delathrebu.

Codir tâl am newidiadau ar gyfradd sefydlog o £76 +3% = £78, tra bydd gwelliannau mwy cymhleth yn codi'r gyfradd fesul awr o £125 yr awr.

## Trwyddedau Rheoli Adar

Rydym yn cynnig y dylid cyflwyno tâl newydd o £163 am drwyddedau rheoli adar er mwyn:

- cynnal iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd mewn adeiladau masnachol, safleoedd busnes, safleoedd diwydiannol, neu grwpiau o fwy nag un annedd, neu
- atal clefydau rhag lledaenu mewn adeiladau masnachol, safleoedd busnes, safleoedd diwydiannol, neu grwpiau o fwy nag un annedd.

Bydd trwyddedau rheoli adar sydd eu hangen at y dibenion hyn mewn ysbytai, cyfleusterau addysgol ac anheddau sengl yn dal i gael eu heithrio rhag taliadau o dan y cynnig hwn.

Codir tâl sefydlog o £76 +3% = £78 am newidiadau gweinyddol i'r trwyddedau uchod, megis newid y trwyddedai, yr ecolegydd, yr asiantiaid achrededig neu newid manylion personol.

Ystyrir bod pob diwygiad arall yn ddiwygiad cymhleth ac, felly, codir tâl o £125 yr awr.

## Gwaith iechyd a diogelwch a gynllunnir

Ar gyfer gweithgareddau iechyd a diogelwch a gynllunnir, rydym yn cynnig y dylid cyflwyno tâl o £125 yr awr ar gyfer:

- ceisiadau lle nad oes angen cynllunio neu lle mae'r gweithgaredd wedi'i gwmpasu gan ddatblygiad a ganiateir e.e., clirio tir, ymchwiliadau tir, gosod seilwaith trydan neu delathrebu, neu
- waith Iechyd a Diogelwch a gynllunnir neu waith Iechyd a Diogelwch rheolaidd fel cynnal a chadw seilwaith dŵr, trafnidiaeth, ynni a chyfathrebu.

Bydd y gwelliannau'n denu tâl sefydlog o £76 + 3% = £78 ar gyfer newidiadau gweinyddol fel newid i'r trwyddedai, ecolegydd, asiantau achrededig neu i fanylion personol.

Ystyrir bod pob diwygiad arall yn ddiwygiad cymhleth ac, felly, codir tâl o £125 yr awr.

## Hepgor taliadau am drwyddedau rhywogaethau

Roedd y cynllun codi tâl am drwyddedu rhywogaethau a gyflwynwyd gennym ym mis Gorffennaf 2023 yn cynnwys pedwar ‘hepgoriad tâl’ a oedd yn nodi o dan ba amgylchiadau y byddai ein hymdrechion yn parhau i gael eu hariannu'n gyhoeddus drwy ‘Gymorth Grant’ er mwyn rheoli'r risg o ganlyniadau anfwriadol a'n galluogi i gyflawni ein hamcanion polisi.

Yn ystod ein hadolygiad o daliadau eleni, gwnaethom ystyried sut roedd yr hepgoriadau wedi cael eu defnyddio a gwnaethom nodi meysydd o ddiffyg eglurder, sy'n golygu bod ein

staff yn treulio llawer o amser yn prosesu ceisiadau cymhleth yn aml ar gyfer prosiectau mawr heb unrhyw dâl, neu'n ymgysylltu ag ymgeiswyr i benderfynu a oes hepgoriad yn gymwys ai peidio.

Rydym yn bwriadu addasu a mireinio'r hepgoriadau a gyflwynwyd yn 2023 er mwyn sicrhau bod arian trethdalwyr yn cael ei dargedu at yr achosion penodol canlynol yn unig:

- **Hepgoriad A** Cadwraeth, gwyddonol, ymchwil neu addysg – Ni fyddwn yn codi tâl am gais am drwydded rhywogaeth os ydych yn gwneud gwaith arolygu nid er elw nac am geisiadau gan asiantaethau gorfodi fel yr Heddlu, y mae angen trwydded arnynt i ymchwilio i drosedd a amheuir. Ni fydd ffi yn gymwys os mai'r prif amcan, yn ein barn ni, yw:
    - amddiffyn y rhywogaethau hynny a warchodir neu eu cynefinoedd
    - datblygu dealltwriaeth wyddonol o rywogaethau a warchodir neu eu cynefinoedd
    - addysg sy'n ymwneud â'r rhywogaethau hynny a warchodir neu eu cynefinoedd
    - cynnal neu wella bioamrywiaeth neu gydnerthedd ecosystemau
    - cynnal a chadw neu warchod henebion hynafol cofrestredig. Rydym yn cynnig y dylid dileu'r hepgoriad ar gyfer taliadau sy'n ymwneud ag adeiladau hanesyddol.
- **Hepgoriad B** diogelwch cyhoeddus, iechyd y cyhoedd, neu atal difrod difrifol i eiddo – Rydym wedi adolygu a mireinio'r hepgoriad hwn fel ei fod yn adlewyrchu natur y cais, ei raddfa a'r meini prawf. Byddwn yn hepgor taliadau lle mae'r prif amcan, yn ein barn ni, yw:
    - cynnal diogelwch y cyhoedd rhag anaf neu farwolaeth uniongyrchol
    - gwarchod iechyd y cyhoedd rhag bygythiad uniongyrchol
    - atal clefydau rhag lledaenu
    - gwarchod adar gwyllt
    - atal difrod difrifol i dda byw, porthiant ar gyfer da byw, cnydau, llysiau, ffrwythau, pren sy'n tyfu, pysgodfeydd neu ddŵr mewndirol
    - gwarchod diogelwch aer, neu
    - gwarchod fflora a ffawna.
- **Hepgoriad C** trwyddedau sy'n ymwneud â rheoli Rhywogaethau Estron Goresgynnol – heb ei newid.
- **Hepgoriad D** gwaith cynnal a chadw deiliaid tai (a elwir yn ddatblygiad tŷ ar hyn o bryd) – Rydym yn cynnig y dylid parhau i hepgor taliadau am drwyddedau

rhywogaethau sydd eu hangen er mwyn gallu cynnal a chadw eiddo domestig a ddefnyddir fel prif breswylfan (dosbarth defnydd C3) lle nad oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith (gellir cymhwyso'r hepgoriad o hyd os oes angen caniatâd adeilad rhestredig ar gyfer y gwaith). Nid yw'r hepgoriad yn gymwys i waith a wneir o dan hawliau datblygu a ganiateir na gwaith ail-doi.

- **Hepgoriad E** newydd, datblygiadau i ddarparu cyfleusterau a mynediad i bobl anabl – Rydym yn cynnig y dylid cyflwyno hepgoriad newydd yn benodol ar gyfer gwaith i ddarparu mynediad i bobl anabl a oedd wedi'i gynnwys yn flaenorol yn Hepgoriad D.

Bydd hepgoriadau ond yn gymwys mewn achosion sy'n bodloni prif amcan yr hepgoriad yn ein barn ni.

Mae ein hepgoriadau presennol ar gyfer trwyddedu rhywogaethau ar gael ar ein gwefan.

## Rheoli rhagolygon o ddiffygion

Yn ogystal â'r cynigion penodol uchod, rydym yn cynnig y dull canlynol o gynyddu costau ar gyfer y cyfundrefnau rheoleiddio hynny sydd mewn diffyg ar hyn o bryd, neu’n rhagweld diffyg wrth symud ymlaen:

- Cynnydd o +8.5% i daliadau cynhaliaeth (cydymffurfiaeth flynyddol) mewn meysydd o ddiffyg sylweddol, sy'n ein symud tuag at sefyllfa o adennill costau. Mae hyn yn gymwys i:
  - Ansawdd Dŵr EPR, a
  - Gwastraff EPR.
- Cynnydd penodol o +6% i gynlluniau tâl cynhaliaeth (cydymffurfiaeth flynyddol) ar gyfer cynlluniau codi tâl a fyddai fel arall angen cynnydd sylweddol i gyrraedd sefyllfa o adennill costau erbyn 2027/28. Caiff y cyfundrefnau hyn eu hadolygu'n fanwl yn y tymor hwy i roi sicrwydd inni y caiff costau eu hadennill yn llawn.
  - Tâl Uned Safonol Adnoddau Dŵr
  - Gosodiadau (gan gynnwys y Gyfarwyddeb Cyfarpar Hylosgi Canolig [MCPD])
  - Di-Niwclear
  - Cyfleusterau Ailgylchu Deunyddiau
  - Cludwyr, Broceriaid a Delwyr Gwastraff
  - Llwythi Gwastraff Rhyngwladol
  - Trwyddedau Asesu Perygl Llifogydd
  - Diogelwch Cronfeydd Dŵr.

- Cynnydd o +3% i feysydd trwyddedu er mwyn ymdopi â phwysau chwyddiannol:
    - Adnoddau Dŵr - Trwyddedau tynnu / cronni
    - Trwyddedau Gosodiadau EPR (gan gynnwys MCPD)
    - Trwyddedau Gwastraff Safle EPR
    - Trwyddedau Ansawdd Dŵr EPR
    - Di-Niwclear EPR
    - Diogelwch Cronfeydd Dŵr
    - Trwyddedu Rhywogaethau.

# Materion eraill i'w nodi

Mae'r ymgynghoriad hwn, a'r cynigion yr ydym yn gofyn am sylwadau arnynt, wedi canolbwyntio ar y newidiadau rydym yn eu cynnig ar hyn o bryd i helpu i barhau i adennill costau drwy ein cynllun codi tâl yn ystod 2025/26.

Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i'ch gwneud yn ymwybodol o feysydd blaenoriaeth i ni eu hadolygu dros y blynyddoedd nesaf a allai effeithio ar daliadau neu ein cyfeiriad strategol.

Nid cynigion penodol yw'r rhain, er ein bod yn croesawu unrhyw adborth wrth ystyried y meysydd adolygu hyn ar gyfer codi tâl yn y dyfodol.

1. **Adolygiadau o daliadau cynhaliaeth / taliadau parhau**

   Ar ôl cynnal ein hadolygiad o daliadau gwneud cais ym mis Gorffennaf 2023, rydym nawr yn bwriadu adolygu taliadau cynhaliaeth / taliadau parhau (hynny yw, taliadau cydymffurfiaeth blynyddol). Er mwyn cynnal adolygiadau manwl, bydd angen buddsoddi adnoddau ac amser i edrych ar brosesau, datblygu dulliau gweithredu, casglu tystiolaeth a llunio cynlluniau codi tâl. Felly, byddwn yn blaenoriaethu cyfundrefnau.

    - Ein bwriad yw canolbwyntio i ddechrau ar y canlynol:
    - Gosodiadau EPR
    - Gwastraff EPR
    - Adnoddau Dŵr
    - Niwclear
    - Trwyddedu Morol (i gefnogi adolygiad gan Lywodraeth Cymru).

   Yn ogystal, efallai y byddwn yn ystyried ymestyn ymhellach i mewn i'r defnydd o addasiadau graddio cydymffurfio y tu hwnt i weithrediadau gwastraff a gosodiadau Haen 2 a 3 e.e. ar gyfer ansawdd dŵr neu adnoddau dŵr.

## 2. Meysydd eraill lle codir tâl

Byddwn yn adolygu neu'n cyflwyno taliadau ar gyfer Gwarchodaeth Dyfrdwy a Chocos Dyfrdwy.

Mae disgwyl i ddyletswyddau trwydded gwialen yng Nghymru gynyddu +3% o fis Ebrill 2025 ymlaen. Cymeradwywyd y cynnydd blynyddol hwn yn 2023 yn dilyn hysbyseb yn 2022, gan gwmpasu 2023 – 2025.

Rydym hefyd yn cynnig cynnydd o +3% i drwyddedau rhwyd o fis Ebrill 2025 sy'n cwmpasu 10 aber yng Nghymru (Cleddau, Conwy, Dyfi, Dysynni, Mawddach, Nanhyfer, Taf, Teifi, Tywi, a Gwy). Mae hyn yn unol â chynnydd i ddyletswyddau trwydded gwialen a chynigion trwyddedau eraill CNC o fis Ebrill 2025 a bydd yn cael ei hysbysebu ar wahân maes o law.

## 3. Y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig)

Mae'r Bil Dŵr (Mesurau Arbennig) wedi nodi uchelgeisiau i gryfhau pwerau rheoleiddio CNC i fynd i'r afael â llygredd dŵr a achosir gan ollyngiadau carthion a seilwaith sy'n heneiddio, a fydd yn cefnogi ein hymdrechion parhaus i ysgogi gwelliannau y mae mawr eu hangen ym mherfformiad cwmnïau dŵr yng Nghymru. Bydd y darpariaethau yn y Bil yn mynd i'r afael â bwlch yng ngalluoedd gorfodi CNC drwy alluogi cosbau i gael eu gosod ar ffurf cosbau awtomatig am droseddau penodol yn y diwydiant dŵr. Bydd hyn yn galluogi'r rheoleiddiwr i osod cosbau yn gyflymach, heb orfod cyfeirio adnoddau sylweddol at ymchwiliadau hir, ar gyfer categorïau penodol o droseddau. Byddwn yn ymgynghori ar ddatblygu mecanwaith codi tâl os oes angen un.

## 4. Gorfodi

Mae ein gweithgarwch gorfodi, tra'n rhan sylfaenol o'n gweithgarwch rheoleiddio i ddiogelu ein hadnoddau naturiol yng Nghymru, yn cael ei ariannu drwy Gymorth Grant. Mae hyn yn golygu bod ein hadnoddau o dan bwysau ac nad ydym bob amser yn gallu mynd i'r afael â phob achos o droseddu gan ddefnyddio'r dulliau sydd ar gael inni ar hyn o bryd. Mae'n hanfodol ein bod yn ystyried yr holl ystod o offer sydd ar gael i sicrhau ffynonellau eraill o gyllid ac adnoddau, y tu hwnt i Grant Cymorth Llywodraeth Cymru, i gryfhau ein gallu gorfodi. Byddwn yn archwilio modelau adennill costau newydd ar gyfer digwyddiadau gwastraff, ymyriadau, a gorfodi, o dan Adran 64 o Reoliadau Deddf yr Amgylchedd 2021 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Arbed) (Cymru) 2022.

## 5. Trwyddedu cwympo coed

Mae diwygiadau i Ddeddf Coedwigaeth 1967 yn golygu ein bod yn newid y ffordd rydym yn rheoleiddio coedwigaeth ac, yn benodol, waith cwympo coed masnachol. Mae ceisiadau a ddaeth i law ar ôl 01 Ebrill 2024 wedi bod yn ddarostyngedig i bwerau newydd sy'n golygu y gallwn ychwanegu amodau at drwyddedau i amddiffyn bywyd gwyllt a'r amgylchedd yn ystod gwaith cwympo coed yn ogystal â diwygio, atal neu ddirymu trwyddedau lle bo angen. Rydym yn bwriadu adolygu trefniadau ariannu'r gwaith trwyddedu hwn a'r gwaith cydymffurfiaeth cysylltiedig gan ei fod yn cael ei ariannu'n gyfan gwbl drwy Gymorth Grant ar hyn o bryd.

## 6. Datgarboneiddio Diwydiannol

Mae CNC yn rhagweld cynnydd sylweddol mewn gwaith sy'n ymwneud â phrosiectau datgarboneiddio diwydiannol yng Nghymru dros y blynyddoedd nesaf. Mae hyn yn cynnwys mentrau mawr ym maes dal a storio carbon, cynhyrchu a defnyddio hydrogen, a chyfleusterau tanwydd cynaliadwy. Bydd y prosiectau hyn, sy'n hollbwysig er mwyn sicrhau allyriadau sero net, yn galw am oruchwyliaeth reoleiddio ac arbenigedd sylweddol.

Rydym yn rhagweld galw cynyddol am fwy o gyngor cyn gwneud cais, mewnbwn technegol a phenderfyniadau trwyddedu amserol ar gyfer y cyfleusterau cyntaf o'u math, a chymhleth, hyn. Gall hyn olygu y bydd angen gwneud newidiadau i'n strwythur codi tâl er mwyn sicrhau y gallwn ddarparu'r gwasanaeth sydd ei angen i gyflawni'r prosiectau gweddnewidiol hyn gan amddiffyn yr amgylchedd ar yr un pryd.

Er nad ydym yn cynnig newidiadau penodol o ran taliadau ar hyn o bryd, rydym am ddatgan ein bod wrthi'n ystyried sut i ariannu'r gwaith hanfodol hwn yn effeithiol. Gall hyn gynnwys datblygu mecanweithiau codi tâl newydd neu addasu rhai presennol i adlewyrchu graddfa a chymhlethdod prosiectau datgarboneiddio diwydiannol.

## 7. Codi tâl fel ymgynghorai statudol – Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol – Gorchmynion Cydsyniad Datblygu – cynnig interim

Mae angen cael Gorchymyn Cydsyniad Datblygu cyn bwrw ati â Phrosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol, a'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n penderfynu ar geisiadau.

Rhaid ymgynghori â CNC ynghylch Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol arfaethedig cyn gwneud cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu, os bydd wedi'i leoli ar dir Cymru neu'n debygol o effeithio ar dir yng Nghymru mewn ffordd arall.

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (Gorffennaf 2023), mae gan CNC ddarpariaeth o dan Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Ffioedd) (Diwygio) 2024 i adennill costau am y cyngor rydym yn ei roi mewn perthynas â Gorchymyn Cydsyniad Datblygu. Mae hyn yn cynnwys costau rhoi cyngor yn ystod camau dewisol a statudol y broses gwneud cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu.

Bwriad CNC yw ehangu fframwaith presennol y Gwasanaeth Cynghori Dewisol i adennill costau am gyngor statudol ac anstatudol rydym yn ei roi mewn perthynas â Gorchymyn Cydsyniad Datblygu, ar gyfradd o £125 yr awr fel mesur interim.

Cyn dechrau defnyddio'r mecanwaith adennill costau ar gyfer ein cyngor ar geisiadau am Orchmynion Cydsyniad Datblygu, byddwn yn cyhoeddi mwy o wybodaeth ar ein gwefan am gwmpas ein fframwaith adennill costau a sut y gellir manteisio arno.

Byddwn hefyd yn gwneud ein gorau i godi ymwybyddiaeth yn y sector o'r dyddiad dechrau ar gyfer adennill costau ac unrhyw drefniadau trosiannol.

*Os hoffech gael y wybodaeth ddiweddaraf am safbwynt CNC ar weithredu'r ddarpariaeth adennill costau a nodir yn Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ffioedd) (Diwygio) 2024, rhowch wybod inni drwy anfon e-bost i: EPP.Planning@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk*

Efallai y bydd angen i Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol gael cydsyniadau eraill a bennir gan CNC hefyd y gellir codi tâl amdanynt.

# Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut i ymateb

Rydym am gael eich barn a'ch safbwyntiau ar ein cynigion ar gyfer y taliadau rheoleiddio a godir gennym o 1 Ebrill 2025 ymlaen. Byddwn yn defnyddio'r adborth i lywio ein cynlluniau terfynol, yr ydym yn bwriadu eu rhoi ar waith o 1 Ebrill 2025 os cânt eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

**Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cau am 23:59 ddydd Sul 12 Ionawr 2025.**

Mae ein hymgynghoriad ar gael ar ein gwefan yn:

https://ymgynghori.cyfoethnaturiol.cymru/sroc/ymgynghoriad-tal-cnc-2025-26

## Diogelu data

Caiff eich ymateb ei weld yn llawn gan staff Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n ymwneud â'r ymgynghoriad hwn. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, i'w helpu i gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Byddwn yn dadansoddi ac yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion a gawn i'r ymgynghoriad hwn. Mae'n bosibl y byddwn yn cyhoeddi ymatebion testun rhydd ac ymatebion a dderbynnir drwy e-bost neu'r post yn llawn.

Byddwn yn cynnwys enw a rhan o gyfeiriad yr unigolyn sy'n cyflwyno'r ymateb pan fyddwn yn cyhoeddi ein hymateb i'r ymgynghoriad. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych am i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni wrth nodi'ch ymateb ac fe wnawn eu tynnu oddi wrth ddeunydd a gyhoeddir.

Mae'n dal i fod yn bosibl y bydd enwau a chyfeiriadau a dynnwyd gennym yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad ydym yn meddwl y bydd hynny'n digwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd ofyn i weld gwybodaeth a gedwir gan sawl corff cyhoeddus, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth nad yw wedi cael ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn ein caniatáu i ddal gwybodaeth yn ôl mewn rhai amgylchiadau. Os oes unrhyw un yn gofyn i weld yr wybodaeth rydym wedi'i dal yn ôl, bydd yn rhaid i ni benderfynu a fyddwn yn ei rhyddhau neu beidio. Os oes rhywun yn gofyn i'w enw a'i gyfeiriad beidio â chael eu cyhoeddi, mae hynny'n ffactor pwysig y byddem yn ei hystyried. Fodd bynnag, weithiau efallai y bydd rhesymau pwysig pam y byddai'n rhaid i ni ddatgelu enw a chyfeiriad rhywun, er ei fod wedi gofyn iddynt beidio â chael eu cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn i ofyn am ei farn cyn penderfynu'n derfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

# Y camau nesaf

Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd yr holl sylwadau (gan gynnwys y wybodaeth bersonol a nodir uchod) a'n hymatebion ar gael i'r cyhoedd ar ein gwefan. Os byddwch yn ymateb gyda chyfeiriad e-bost, byddwn yn cydnabod eich ymateb ac yn rhoi gwybod ichi pan fyddwn yn cyhoeddi'r crynodeb o ymatebion ar ein gwefan.